

Bwletin Llên Natur 17

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

Gorffennaf 2009



Y Gwalch-wyfyn Llygeidog ...un o'r 26 o walchwyfynod yng ngwledydd Prydain.

Dwy waith hyd yma y daeth hwn i'r fei yn y trap gwyfynod y bum (DB) yn gosod yn y Waunfawr yn wythnosol ers 1995, ar y 31 Mai 2004 ac ar y 4 Mehefin 2006. Mae ei lindys yn bwyta dail helyg a phren afal.

Bydd Cyfrol 3 yn y gyfres Enwau Anifeiliaid a Phlanhigion ar gael yn fuan. Enwau Gwyfynod, Glöynnod Byw a Gweision Neidr fydd hon ac mae'n ffrwyth 4 blynedd o waith ar ran Cymdeithas Edward Llwyd gan banel o naturiaethwyr a ieithyddion gan gynnwys y Dr. Bruce Griffiths, Huw John Huws a Dafydd Lewis. Mae'r enwau ar y wefan eisoes.

Gwiberod Glannau'r Wyrfa a chofio Mary Vaughan Jones

Bum mlynedd yn ôl bu farw Mary Vaughan Jones - naturiaethwraig, biolegydd, athrawes, hanesydd, - fel y bu hi fyw, ynghanol ei phethau ar ei gwyliau yn Sbaen. Plas Glan yr Afon, Waunfawr oedd ei chartref gwreiddiol a "Mary Plas" oedd hi felly yn ei phlentyndod yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf. Tan y diwedd roedd yn llawn aspri a chwilfrydedd am bobl a thir boed yn ei milltir sgwar neu ym mhen draw'r byd. Gwyddom hynny amdani eisoes - ni bobl Waunfawr - a dyna hefyd sydd yn disgleirio o'i phapurau a'i nodiadau, llawer ar eu hanner, a adawodd Mary i archif amhrisiadwy cymunedol Antur Waunfawr. Meddai un cofnod: "Roedd coedydd glannau'r Wyrfa yn gynefin gwiberod flynyddoedd yn ôl. Rwy'n cofio Mam a finnau'n yn edrych dros fferm Gwredog Isaf a hithau'n dweud 'mae nhw wedi cael tatws hadyd o Iwerddon - fydd yna ddim nadroedd yna rwan' ". Dyma mae'n debyg oedd "rhesymeg" mam Mary yn y cofnod - Sant Padrig a waredodd Iwerddon o'i nadroedd - Iwerddon yn ddiarhebol ddibynnol ar datws - felly - tatws Iwerddon yn cael gwaredd o nadroedd pa le bynnag y'u plennir.

Dwi'n cofio nadroedd fy hun ar lannau'r Wyrfa yn fy mhlentyndod i, pan oedden ni blant yn mynd i chwarae ac



i ymdrochi yn yr afon ger Bompren Gwaredog yn y pumdegau. Cofiaf Frank Nestfield, a drigai yn y tyddyn drws nesaf i Blas Glan yr Afon yn eu "piclo" mewn potiau jam. Taid Steven Nestfield oedd Frank, a fu farw mor ddisymwth a thrasig. Dw'n i ddim am ei rhesymeg, ond roedd proffwydoliaeth mam Mary yn berffaith gywir. Nid oes nadroedd mwyach yn y parthau hynny o lannau'r Wyrfa, na chwaith mewn aml i lecyn arall lle buont tan yn ddiweddar. Bum i'n holi perchnogion presennol y tai, rhag ofn 'mod i'n cyfeiliorni - ond na. Mae gweddwl Steven, sy'n byw o hyd yn yr un lle, hefyd yn cofio "Taid" a'i nadroedd-potiau-jam yn y 1970au. Roedd y tacla medde hi yn arfer dod i fewn i'r ty. Holais hefyd berchennog presennol Plas Glan yr Afon am wybodaeth am y nadroedd, ond ni welodd Arthur (ffermwr sydd yn adnabod ei dir) neidr yn y cyffiniau ers o leiaf 10 mlynedd, er iddo yntau hefyd gael ei siarsio yn ei blentyndod i gadw draw o "Adder Hill". I ble yr aethant; mae'r cynefin o eithin a rhedyn yn llygad yr haul yno o hyd? Byddai Frank, a mam Mary, a llawer un arall hefyd, yn ddigon balch o weld eu cefnau mae'n siwr. (DB).

Addasiad o erthygl a ymddangosodd yn y Cymro Mawrth 2008

Gormod o bwdin dagith leian wen




Llun Gwyn Williams

...a thagfeydd eraill...**Little Grebe choking to death on fish** On 21st February 1968, in the New Forest, Hampshire, a dead female Little Grebe *Podiceps ruficollis* was found choked by a fish; the corpse was given to A. J. Wise who passed it on to me. As in the two cases described by D. G. Bell (*Brit. Birds*, 61: 307), the fish was a Miller's Thumb *Cottus gobio* (a female distended with spawn), but in this instance it was stuck head first in the grebe's throat. A. E. Cooper. Eds.

CERDDINEN Y DARREN FACH - Ilythyr

As well as Daren Fach, Ley's Whitebeam also grows across the valley on crags at the nearby Penmoelallt



(SSSI) and it is probably better known at this site as it is owned by FC and promoted as a Forest Nature Reserve - there are information boards at the nearby Visitor Centre declaring the

presence of the whitebeam and much has been done to raise awareness that Merthyr Tudfil has a very special tree on its doorstep - its presence at Daren Fach has a much lower profile amongst the public. I think there would be a strong case for reviewing the name - not only because of the above, but also because it was discovered by Augustine Ley and the Welsh name doesn't sit well with both the English and scientific names. I think the Welsh equivalent should also be a tribute to Ley who almost single-handedly in the latter part of the 19th Century discovered so many of the rarities, including critical species such as Hawkweeds, growing in this part of Wales. Ley also had strong family ties in Wales having married into the family who owned the Glyn-hir estate in Carmarthenshire. I do understand that it is difficult to please all people with names, but I think in a case where a species has both the English and Scientific names so obviously linked I think that there should be strong guidance that suggests that the Welsh equivalent should also reflect this.

Graham Motley, Swyddog Cadwraeth - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

L l ê n y r H i n

Dau lif yn cyfarfod?

Meddai Donald Glyn Pritchard, arbenigwr ar hanes y gors rhwng Llangefni a Malltraeth, y gwaith glo ac ati: "Wrth fesur llanw uchel ddydd Llun y Pasg, dyma feddwl tybed beth ydy'r enw ar y man tawel pan mae llif yr afon yn cyfarfod ac yn canslo allan llif y môr. Tybed oes yna unrhyw un fedar ateb y cwestiwn yma? Mae 'na amryw o eiriau yn dwad i'r meddwl:

Pen llanw – dyna pryd fyddai'r llanw ar ei uchaf a'r dŵr yn llonydd [distyll neu pen trai pan ar ei isaf]

Gorllanw – enw arall ar y pen llanw.

'Pen gorllawn' – yn fersiwn o'r term ym Môn [gw ysgrif Sion Gwilym Tanyfoel, Llangefni yn Fferm a Thyddyn 22 (1998).

Pan fydd hi'n ben gorllawn / pen llanw:

Dŵr llonydd – dyma sut y disgrifir cyflwr dw'r yr afon yn ei llawnder.

Yr afon yn **llawn** / yn ei '**llawndra**' jyst cyn i'r llanw droi. Clywais: 'Mae'r afon **dat ben y cloddiau**, gobeithio y troith hi cyn bo hir' [Maentwrog]

Yn Saesneg y "slack" ydi'r agosaf ond dydio ddim cweit yn cyfleo bedachi'n geisio esbonio chwaith".

Triwio...?

28 Ebrill 1886 Dyddiadur W.J., Moelfre, Aberdaron

"Merlyn Bogelus wedi triwio bach wedi mynd iw ochr"

Beth yw triwio chi bobl Aberdaron a'r cylch?

Merlod mynydd Keith O'Brien....



Mae'r merlod mynydd hyn wedi bod yn cerdded y Crawcwellt wrth odre'r Rhinogydd ger Trawsfynydd ers 50 mlynedd. Beth yw eu hanes tybed? Faint sydd yna? Ac o ble y daethant.

Beth am fynd i weld mwy o luniau Keith ar ei wefan.

www.pbase.com/gefailof

...a chwningod cynnar Esgob Bangor



Cynllun ar un o deils a ddaeth i'r fei wrth gloddio yng nghadeirlan Bangor yw hwn. Mae'n dyddio mae'n debyg o'r 13eg ganrif, sef cofnod o gwningen yn fuan iawn ar ôl ei chyflwyniad yma. Mae'r gwningen

(chwth uchaf) fel petai'n dod allan o dwll, ond beth tybed yw'r bwystyfil i'r dde.

Archaeologia Cambrensis 1895

Morfilod Enlli

Nodyn bach diddorol (am forfilod, mae'n debyg) o'r Genedl Gymreig, Rhagfyr 15, 1877: "Ynys Enlli: Pysgod Anferth:- y dyddiau o'r blaen gwelwyd amryw o bysgod mawrion ar ein cyfer yn chwythu y môr i fyny am lathenni nes bod fel colofnau anferth yng nghanol y môr.Yr oedd yr olwg arnynt yn rhamantus.

Steffan ab Owain



Morfil trwyn potel, Traeth Coch, Ynys Mon, Hydref 1986 (DB)

...a morfilod eraill

2 Hydref 1756 "Dim sgadan phirfa yn y cyrrau yma. Haid fawr o rhyw bysgod yn maeau Carnarvon; herring hogs medd rhai, bottle-noses medd eraill, a sort of young whales medd y trydydd. Maent o 20 i 30 troedfedd o hyd, trwyn ysmwt, a llygad yn ei yml. They've taken about a dozen of them. Pethau mawfaeth ydynt, mae dialedd o eisiau eu lluniau.

Llythyrau Morrisiaid Môn

1799 Pennant mentions two [bottle nosed whales] measuring approximately 27 feet and eighteen feet that were stranded on the sands at Aber

(Forrest, 1907)

12 Ion 1846 There was a large W?le [whale] at Caernarvon about 15 tons gave 1 [penny?] for going to see it". (Yr unig sylw wedyn oedd "Had 1/2 orange"!)

Dyddiadur William Searell, Beddgelert

15 Medi 1877 Female bottle nosed whale which was killed in the Menai Straits was 24 feet long accompanied by two others, A small one was cast ashore at Caernarvon a few days later but was not identified

(Zoologist 1878, dyfynnir yn HE Forrest 1907)

1888 Menai Bridge whale 14' long captured after an exciting chase

Bygones 1883?

Gorff 1890 Aberdaron: whale [tua 30'] came ashore early in July and shortly afterwards gave birth to a young one.

Bygones 1890

oddiwrth Steve Roddick

"Farmers are to be allowed to leave dead livestock in their fields in parts of Europe - to help starving vultures. MEPs voted for a change in the law after the hungry birds, most often found in Spain, had been spotted as far away as Brussels, scavenging for food...Vultures are capable of stripping a dead cow or sheep carcass in a matter of hours. This forced the birds to embark on some rather long-haul trips - one was even spotted recently perched on top of a bus shelter in Brussels"

O wefan y BBC

Meddai Steve, "Looks like some Anglesey farmers have been light years ahead of the game!". Tafod yn y boch Steve?

Sglefrod Môr



Sglefren y mor-ddanhadlen *Chrysaora hysoscella*. Mae'n pigo, a'r pigiad yn teimlo fel danhadl, neu ddail poethion. Llun a chapsiwn gan Sion Roberts. Mwy o luniau Sion ar -

<http://www.flickr.com/photos/gwylan/>

Ystyr yr enw gwyddonol meddai Sion yw: *Chrysaora* = Chrysaor, duw mellt, mab y duw Poseidon, ym mytholeg Groeg. *Hysoscella* [Groeg eto] = *isos* = "yn debyg i", + *scelis* = rhaban. Mae'r môr ddanhadlen yn y pheilwm *Cnidaria* sydd hefyd yn golygu dail poethion: *cnida* [Lladin] < knide [Groeg] = danadl, dail poethion, am fod yr anifeiliaid yma yn gallu pigo. Mae lot o bobl o'r Gogledd (Llyn/Merionnydd) yn adnabod hon fel "y gont goch" - enw cofiadwy! Mae pigiad ganddi yn teimlo yn union fel pigiad dail poethion.

Slefrod yn Y Dyddiadur

22 Gorff 1921 ... it is very hot - and on Sunday I was stung by a jellyfish - which is not an experience to be sought for! But spite of the heat we are having a good time (Cerdyn Post).

14 Gorff 1977 Large numbers of jellyfish *Chrysaora isocea* in sea off Dyffryn this week (Ann Court). **5 Tach 1988** Mike Alexander (chwthi llun) yn son bod nifer fawr o slefrod môr ar draeth Harlech ac yn awgrymu fod y crwban fôr diweddar wedi dilyn y slefrod. **9 Tach 1988** slefrod môr yn eu cannoedd bron ar hyd glanmor Aberogwen-Aber. Dyddiadau slefrod eraill yn Y Dyddiadur: **23 Gorff 1989**, **7 Tach 1990** Ford Caernarfon, **12 Rhag 1990** Harlech a Llanddwyn, **10 Awst 1995** Penbre, Penfro, **31 Gorff 1998** Penfro mis yma - gwyntoedd mis Gorffennaf trychinebus o wlyb a diflas, **23 Medi 1998** "scientists say it's the spell of warm weather that's to blame", Daily Post, **10 Hyd 2004** fel platau cinio, traeth Caernarfon, **Meh 2008** tua trydydd wythnos y mis "vast shoals of "mauve stingers" *Pelagia noctiluca* in the waters between Corsica and the French mainland...final proof of a radical and possibly irreversible change in the ecology of the Mediterranean...60 jellyfish a minute?"

The Observer



Colofn Huw (yn dilyn llun Ifor Williams o gawod genllysg yn y rhifyn diwethaf)

Hail is hard and hurts, snow is soft and gentle. Hail forms from water droplets, snow from ice crystals. There are two types of hail; small hail is less than 5mm in diameter, large hail is more than 5mm diameter. Small hail is also known as ice pellets, and is more common over western Britain



Fe drawyd ardal Roanne, yn Brive, Ffrainc gan storm genllysg (neu gesair) ar y 21ain Mai eleni, gan achosi difrod i dai, ceir a chnydau. Disgynodd y peli rhew (yn ôl papur newyddion lleol La Montagne) ychydig ar ôl 8:15 yh am chwarter awr.

between October and April. Large hail is more common over inland Britain between May and September. The worst hailstorms occur as a result of hot humid summer weather, usually in the late afternoon. The worst hailstorms occurred in the 18th & 19th centuries, and have become less common and less destructive since the beginning of the 20th century. The worst hailstorm on record was 15th May 1697 over Hertfordshire with hail 110mm (4in) in diameter (tennis ball size). Another terrible hailstorm started at 4pm over Norfolk on 9 August 1843. 75mm (pigeon egg sized) hail fell over a 158 mile swathe from Gloucester to Norfolk. Corn was flattened, trees stripped, birds and farm animals killed, causing huge agricultural damage. As a result, the General Hail Insurance Company is founded in November 1843. In 1908 it amalgamates with the Norwich Union Fire (itself founded in 1797 to insure houses and stock from fire) to create the Norwich Union, now one of the largest insurance groups in Europe - all from the twin hazards of fire and hail.

Mae'r wal hwn ynghanol ardal creigiau Cambriaidd a adwaenir fel y *Lingula Flags* oherwydd natur y ffosiliau morol sydd yn perthyn iddynt. Mae'r graig yn 600 miliwn mlwydd oed...a'r wal, er yn hen, yn ddipyn ieuengach! Dewch ag engreifftiau o waliau eich ardal chi i'r ORIEL

Wal Llandecwyn, Talsarnau



Brith-yd....

20 Ebr 1770: y diwrnod hwnnw y bu gwunt a glaw trwm. Oer a rhewllud o hynny hyd y diwedd. Canol bris marchnad Dimbech: y gwenith am 14, yr haidd 8s., y cerch am goron, y blawd i swlit y phioled. **Brithud 9 ceiniog y phioled**, a'r ymenun am 8c. (Llyfrau Atgofion Owen Thomas) Yn amlwg mai brith-yd sy' ganddo fo. Beth yw hwnnw? (Twm Elias)

....a'r aderyn brith

ON April 16th, 1919, while fishing on the Usk just below Brecon, I saw a cock Pied Flycatcher (*Muscicapa hypoleuca*) in very fine plumage flying about and feeding by some willows on the bank of the river. This bird, is I think, rather rare in South Wales, so it may be worth recording. (British Birds, June 1919).

Ymadroddion tywydd

Gyda chyhoeddi **Am y Tywydd** gan Twm Elias y llynedd gan Wasg Carreg Gwalch, ysgogwyd rhai i gofio rhagor. Dyma rai o ymadroddion tywydd a ddaeth i law Twm nas cyhoeddwyd tan rwan:

Y gath yn golchi dros ei chlust - glaw ddim yn bell
Defaid yn dod i ymdroi o gwmpas y tŷ?
Gwartheg yn gorwedd yn gynnar yn y dydd, dywedid eu bod yn "cadw 'u gwelyau yn sych".
Gwenciod i'w gweld allan o flaen tywydd garw
Llygod yn chwarae yn y nos - o flaen tywydd garw
Asyn yn nadu - glaw

Edwards,J.M. (1951) Llafar

Mwnci Cerigos.....gan Leisa



"Dyma be wnes i ar draeth Nant Gwrtheyrn ar y 25 Ebrill 2009"
(Leisa, 6 oed) Unrhyw gynnig ar y mathau o gerrig yn y cerflyn?
- mi fentraf mai iasbis (jasper) yw clust chwith y mwnci.
Dewch a'ch cerfluniau gwyliau chwi i Oriel Llên Natur. Gol.